child accident prevention trust

# Beth sy'n gyffredin rhwng y pethau hyn...




# ...a all ladd eich plentyn?

# A: y batri botwm sy'n eu pweru.

Os bydd eich plentyn yn llyncu batri botwm, gall fynd yn sownd yn ei bibell fwyd. Yna, gall losgi drwy'r brif rydweli a gwneud niwed difrifol neu ei ladd hyd yn oed. Gall hyn ddigwydd yn gyflym iawn.

Babanod sy'n cropian hyd at blant cyn oed ysgol sy'n wynebu'r perygl mwyaf.




## Pa fatris sy'n fwyaf peryglus?

Mae batris celloedd lithiwm maint darn arian yn ddigon mawr i fynd yn sownd ac yn ddigon cryf i ladd. Maent ychydig yn fwy na darn 5 ceiniog.

Gall batris botwm llai achosi niwed o hyd, yn enwedig os ydynt yn rhai newydd.

## Lle maen nhw?

Gall eich plentyn ddod o hyd iddynt mewn pethau fel:

- taclau rheoli o bell bach
- ffobiau allweddi ceir neu ganfodyddion allweddi
- cardiau a llyfrau cerddorol
- teganau sy'n goleuo ac eitemau difyrrwch
- goleuadau nos
- clorian digidol
- thermomedrau
- hen deganau yn y blwch teganau

Efallai y bydd yn dod o hyd i fatris sbâr sy'n cael eu cadw o fewn ei gyrraedd neu sydd wedi disgyn o'r pecyn hefyd.

Mae hyd yn oed batris 'fflat' yn dal digon o wefr i fod yn beryglus.

## Gwiriwch eich cartref

Chwiliwch o gwmpas eich cartref am fatris botwm.

Cadwch gynhyrchion ymhell o gyrraedd eich plentyn os nad yw'r adran fatris wedi'i diogelu.

Cadwch fatris sbâr a batris 'fflat' ymhell o gyrraedd eich plentyn hefyd.

Byddwch yn ofalus o fargeinion o farchnadleoedd ar-lein neu siopau disgownt lleol. Efallai y bydd ganddynt fatris botwm y gall eich plentyn fynd atynt yn hawdd.

## A yw eich plentyn wedi llyncu batri?

**Gallai fod rhai symptomau. Credwch eich greddfau. Peidiwch ag oedi. Ewch ag ef/â hi i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu ffoniwch 999 am ambiwlans.**

**Peidiwch â gadael iddo ef/iddi hi fwyta nac yfed a pheidiwch â gwneud iddo/iddi chwydu.**

## Mwy o gymorth gan yr arbenigwyr diogelwch

capt.org.uk/button-batteries

@ChildAccidentPreventionTrust